LLAWLYFR CYMHWSTERAU

City & Guilds Lefel 3 Dyfarniadau a Thystysgrif mewn Dysgu a Datblygu (6318)

Fersiwn 3.0 (Chwefror 2022)

Y Cymhwyster yn gryno

Maes pwnc	Dysgu a Datblygu
Rhif City & Guilds	6318
Grŵp oedran cymeradwy ??	16, 18 ac 19+
Gofynion mynediad	Dim
Asesiad	Aseiniadau ar unedau gwybodaeth Asesiad o berfformiad cymwys ar unedau cymhwysol
Llwybr Carlam	Ar gael
Deunyddiau cefnogi	Llawlyfr y ganolfan
Cofrestru ac ardystio	Edrychwch yn y Walled Garden/y Catalog Ar-lein i gael y dyddiadau cau

Teitl a lefel	**Rhif City & Guilds**	**Rhif Achredu**	**OD DA**	**CAC**
City & Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu*	6318-01	600/2559/1	Amh	
City & Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu	6318-02	600/2556/6	50	120
City & Guilds Lefel 3 Tystysgrif mewn Dysgu a Datblygu	6318-03	600/2746/0	120	300

*Nid yw City & Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu ar gael bellach.

Fersiwn a dyddiad	Newid manylion	Adran
1.1 Hydref 2012	Newid i'r teitl yn y strwythur	Rheolau cyfuno
2.0 Hydref 2013	Dulliau asesu ar gyfer unedau 001 a 014 wedi'u cywiro i'r Portffolio (roedd yr aseiniad yn anghywir)	Asesiad
3.0 Chwefror 2022	ODDA a CAC wedi'u hegluro a'u hamlygu City & Guilds wedi'i ychwanegu at deitlau cymwysterau	Y cymhwyster yn gryno Strwythur Drwy'r cyfan

Cynnwys

1	**Rhagarweiniad 6**	
	Strwythur	7
	Rheolau Cyfuno	7
2	**Gofynion y ganolfan**	**11**
	Cymeradwyo	11
	Gofynion o ran adnoddau	11
	Sicrhau Ansawdd	13
	Gofynion mynediad i ddysgwr	15
	Cyfleoedd am gynnydd	15
3	**Cyflwyno'r cymhwyster**	**17**
	Asesu a chyflwyno cychwynnol	17
	Strategaethau darparu dysgu	17
	Deunyddiau cefnogi	19
	Dogfennau cofnodi	20
4	**Asesiad**	**21**
	Asesiad o'r cymhwyster	21
	Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)	24
5	**Unedau**	**26**
Uned 001	**Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu**	**27**
Uned 004	**Adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol**	**31**
Uned 006	**Cynllunio a pharatoi cyfleoedd dysgu a datblygu penodol**	**34**
Uned 007	**Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu**	**37**
Uned 008	**Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau**	**40**
Uned 009	**Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion**	**44**
Uned 011	**Ymgysylltu'r dysgwyr yn y broses ddysgu a datblygu**	**47**
Uned 012	**Myfyrio a gwella eich ymarfer eich hun mewn dysgu a datblygu**	**51**
Uned 013	**Gwerthuso a gwella darpariaeth dysgu a datblygu**	
Uned 014	**Deall egwyddorion ac arferion asesu**	**57**
Uned 015	**Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith**	**61**
Uned 016	**Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth**	**65**

Uned 019	**Gwybodaeth a chyngor i ddysgwyr a chyflogwyr**	**69**
Uned 020	**Ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu a chefnogi darpariaeth dysgu**	**73**
Uned 021	**Deall y sefydliad cyflogi**	**76**
Atodiad 1	**Perthynas â chymwysterau eraill**	**79**
Atodiad 2	**Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol**	**80**

1 Cyflwyniad

Mae'r cymwysterau hyn ar gyfer pobl sy'n gweithio neu sy'n ceisio rolau o fewn dysgu a sicrhau ansawdd mewnol. Maen nhw wedi cael eu datblygu gan LLUK i ddisodli NVQau Dysgu a Datblygu. Maen nhw wedi'u dylunio i'w defnyddio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon - mae trefniadau amgen yn bodoli yn yr Alban.

Bydd yr unedau a'r cymwysterau hyn yn darparu cyfle i'r bobl sy'n gyfrifol am rolau dysgu a datblygu yn eu sefydliadau i ddatblygu a gwella eu hymarfer yn ogystal ag ennill cymhwyster proffesiynol ar gyfer y rôl. Maen nhw ar gael i unrhyw un sy'n gweithio o fewn: dysgu achrededig; dysgu an-achrededig (lle gall pobl hyfforddi ac asesu sgiliau ond heb fod yn asesu ar gyfer cymhwyster) a'r RQF.

Mae rhai unedau gwybodaeth yn unig (gyda'r teitlau 'Deall y ...). Mae'r rhain yn caniatáu i unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd angen gwybod am ddysgu a datblygu - ond heb fod yn ymarferydd - i gaffael gwybodaeth am y prosesau. Er eu bod yn unedau annibynnol maen nhw'n rhan o bob cymhwyster fel y sylfaen gadarn ar gyfer ymarfer 'cymwys'.

Bydd cyflawnwyr yn deall egwyddorion dysgu a datblygu a bydd ganddynt yr wybodaeth i ddatblygu a gwella systemau yn eu canolfan.

Mae'r llawlyfr hwn yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud i ddarparu'r cymwysterau 6318 Lefel 3 :

Maes	**Disgrifiad**
Ar gyfer pwy mae'r cymwysterau?	Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio neu sydd eisiau gweithio fel hyfforddwyr/tiwtoriaid/aseswyr mewn amrywiaeth o sectorau
Beth mae'r cymwysterau'n eu cwmpasu?	Mae'r cymwysterau hyn yn caniatáu i ddysgwyr ddysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth a/neu ddilyniant gyrfa fel hyfforddwr/tiwtor/asesydd mewn nifer o sectorau.
Ydy'r cymwysterau hyn yn rhan o fframwaith neu fenter?	Mae'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Dysgu a Datblygu yn rhan o'r fframwaith Prentisiaeth Dysgu a Datblygu.
Gyda phwy wnaethon ni ddatblygu'r cymhwyster hwn?	Cafodd y cymwysterau hyn eu datblygu gan y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau - LSIS (LLUK gynt), yr SSC ar gyfer dysgu a datblygu.
Pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer dilyniant?	Mae'r cymwysterau hyn yn caniatáu i ddysgwyr fynd ymlaen at gyflogaeth neu at y cymwysterau City & Guilds canlynol: • Dyfarniad a Diploma Lefel 4 mewn Dysgu a Datblygu

Strwythur

Mae'r cymwysterau hyn yn perthyn yn agos i gymwysterau eraill yn y gyfres Dysgu a Datblygu. Ar lefel 3 mae'r cymwysterau llai yn 'nythu''n llwyr o fewn y rhai mwy. Mae cryn dipyn o unedau sy'n ymddangos yn Nyfarniad Lefel 3 mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu a'r Dystysgrif Lefel 3 hefyd yn digwydd yn y Diploma Lefel 4. Mae hyn yn helpu dysgwyr i gronni credydau, eu trosglwyddo ac i symud ymlaen, yn llorweddol (at gymwysterau mwy ar yr un lefel) ac yn fertigol.

Enghraifft o hyn yw lle y gallai unigolyn ennill y Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu. Mae hwn yn gymhwyster chwe chredyd sy'n cynnwys un uned yn unig. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r cylch Dysgu a Datblygu cyfan ac egwyddorion allweddol eraill.

Mae'r uned hon, yn ei thro, wedi'i 'nythu' o fewn y Dyfarniad Lefel 3 mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu. Mae hwn yn gymhwyster 12 credyd sy'n gofyn am yr un uned gwybodaeth a dealltwriaeth ac am ennill chwe chredyd pellach sy'n trafod hwyluso datblygu dysgwyr mewn un o ddau gyd-destun (gweithio gyda grwpiau o ddysgwyr neu gyda dysgwyr unigol).

Mae'r cymhwyster hwn, yn ei dro, wedi'i nythu o fewn Tystysgrif Lefel 3 mewn Dysgu a Datblygu. Mae hwn yn gymhwyster 30 credyd sy'n galw ar yr ymarferydd i arddangos eu cymhwysedd ar draws sawl elfen o'r cylch dysgu a datblygu. Felly i unrhyw ymarferydd sy'n ennill y Dyfarniad Lefel 3 mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu dim ond 18 credyd arall fydd eu hangen er mwyn ennill y Dystysgrif lawn ar Lefel 3.

Bwriad y trefniant hwn yw galluogi unrhyw ymarferydd i fynd ymlaen yn 'fertigol' ar Lefel 3 drwy gronni credydau ac ennill cydnabyddiaeth ardystiedig o'u dysgu a'u sgiliau ar adegau priodol.

Gan fod llawer o'r unedau sy'n ffurfio'r Dystysgrif Lefel 3 hefyd yn y Diploma Lefel 4, bydd y rhan fwyaf o ymarferwyr sy'n ennill y Dystysgrif Lefel 3 eisoes wedi cronni credydau sylweddol o fewn y Diploma Lefel 4. Bwriad y trefniant hwn yw galluogi dilyniant 'fertigol' i'r lefel nesaf.

Rheolau cyfuno

Er mwyn ennill **Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu** rhaid i ddysgwyr ennill cyfanswm o **6** chredyd o uned 001.

Uned Rhif Achredu	**Uned City & Guilds**	**Enw'r uned**	**Gwerth credydau**
Gorfodol	**Grŵp A**	**Rhaid i ddysgwyr ennill pob un o'r 6 chredyd.**	
Y/502/9541	001	Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu	6

Er mwyn ennill **Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu** rhaid i ddysgwyr ennill isafswm o **12** credyd, 6 chredyd o 001 ac o leiaf 6 chredyd o naill ai 008 neu 009.

Uned Rhif Achredu	**Uned City & Guilds**	**Enw'r uned**	**Gwerth credyd au**
Gorfodol	**Grŵp A**	**Rhaid i ddysgwyr ennill pob un o'r 6 chredyd.**	
Y/502/9541	001	Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu	6
Dewisol	**Grŵp B**	**Rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf 6 chredyd o'r grŵp yma**	
F/502/9548	008	Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau	6
J/502/9549	009	Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion	6



Er mwyn ennill **Tystysgrif Lefel 3 City & Guilds mewn Dysgu a Datblygu,** rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf **30** credyd. 12 credyd o'r 2 uned orfodol (001 ac 012), ac o leiaf 6 credyd o (008, 009) gall yr isafswm o 12 credyd arall ddod o (004, 006-009, 011, 013-016, 019-021).

Uned Rhif Achredu	**Uned City & Guilds**	**Enw'r uned**	**Gwerth credyd au**
Gorfodol	**Grŵp A**	**Rhaid i ddysgwyr ennill pob un o'r 12 chredyd.**	
Y/502/9541	001	Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu	6
J/502/9552	012	Myfyrio a gwella eich ymarfer eich hun mewn dysgu a datblygu	6
Dewisol	**Grŵp B**	**Rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf 6 chredyd o naill ai B1 neu B2**	
	B1		
F/502/9548	008	Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau	6

Rhif achredu'r uned	Uned City & Guilds	Enw'r uned	Gwerth credyd au
	B2		
J/502/9549	009	Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion	6
Dewisol	**Grŵp C**	**Rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf 12 credyd o unrhyw grwpiau dewisol (yn cynnwys grŵp B)**	
	C1	**Os yw'r grŵp yma'n cael ei gymryd rhaid i ddysgwyr ennill pob un o'r 9 credyd**	
D/601/5313	014	Deall egwyddorion ac arferion asesu	3
H/601/5314	015	Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith	6
	C2	**Os yw'r grŵp yma'n cael ei gymryd rhaid i ddysgwyr ennill pob un o'r 9 credyd**	
D/601/5313	014	Deall egwyddorion ac arferion asesu	3
F/601/5319	016	Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth	6
	C3	**Os yw'r grŵp yma'n cael ei gymryd rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf un uned**	
K/502/9544	004	Adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol	3
T/502/9546	006	Cynllunio a pharatoi cyfleoedd dysgu a datblygu penodol	6
A/502/9547	007	Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu	6
F/502/9551	011	Ymgysylltu'r dysgwyr yn y broses ddysgu a datblygu	6
L/502/9553	013	Gwerthuso a gwella darpariaeth dysgu a datblygu	6
R/502/9554	019	Darparu gwybodaeth a chyngor i ddysgwyr a chyflogwyr	3
Y/502/9555	020	Ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu a chefnogi darpariaeth dysgu	6
R/600/1764	021	Deall y sefydliad cyflogi	3



Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i Ddysgwr ei dreulio i ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sydd wedi'u rhestru ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, astudio ac asesu.

Teitl a lefel	ODDA	CAC
City & Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu*	Amh	Amh
City & Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu	50	120
City & Guilds Lefel 3 Tystysgrif mewn Dysgu a Datblygu	120	300

*Nid yw Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu ar gael bellach.

2 Gofynion y ganolfan

Cymeradwyo

Os yw eich Canolfan wedi'i gymeradwyo i gynnig y cymwysterau 7318 byddwch yn cael cymeradwyaeth awtomatig i gynnig y cymwysterau 6318 - does dim angen i chi wneud dim byd.

Mae Canolfannau presennol sydd heb eu cymeradwyo i gynnig 7318 ac sydd am gynnig y cymhwyster hwn ddefnyddio'r Broses Cymeradwyo Cymhwyster **safonol**.

I gynnig y cymwysterau hyn, bydd angen i ganolfannau newydd gael cymeradwyaeth y ganolfan a chymeradwyaeth y cymhwyster. Cyfeiriwch at *Llawlyfr y Ganolfan – Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid* am ragor o wybodaeth. Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo gyda gofynion strwythur, cynnwys ac asesu'r cymwysterau cyn cynllunio rhaglenni cwrs.

Gofynion o ran adnoddau

Adnoddau Ffisegol

Bydd angen cyfleusterau hyfforddi priodol ar Ganolfannau a lle mae unedau cymhwysol yn cael eu hasesu, bydd angen cyfleoedd i asesu dysgwyr mewn amgylchedd gwaith priodol.

Staff y Ganolfan – canllaw asesu LSIA (LLUK gynt)

Mae City & Guilds yn disgwyl y bydd y cymwysterau hyn yn cael eu darparu gan ymarferwyr medrus iawn o ran darparu dysgu, asesu a sicrhau ansawdd.

Dylai ymarferwyr allu cyflawni **pob un** o'r swyddogaethau canlynol i sicrhau profiad dysgu o ansawdd i'r dysgwr:

- adnabod anghenion hyfforddi a datblygu'r dysgwr
- cynllunio ar gyfer, dylunio a datblygu cyfleoedd dysgu a datblygu
- darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel
- hwyluso a chefnogi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr
- asesu perfformiad dysgwyr
- adolygu effeithiolrwydd cyfleoedd dysgu
- cyfrannu at y broses sicrhau ansawdd

Yn ogystal, rhaid i bob un sy'n asesu'r cymwysterau hyn feddu ar:

- wybodaeth waith a phrofiad cyfredol o arfer gorau mewn Dysgu a Datblygu
- bod yn gymwys yn alwedigaethol yn yr unedau y maen nhw'n eu hasesu
- dangos tystiolaeth gyfredol o ddatblygiad ac ymarfer proffesiynol parhaus mewn asesu a dysgu a datblygu

yn ogystal â meddu ar un o'r cymwysterau canlynol neu gymhwyster cywerth cydnabyddedig:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith, **neu**
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol, **neu**
- A1 Asesu perfformiad dysgwr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, neu
- D32 Asesu perfformiad dysgwyr a D33 Asesu dysgwyr gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau o dystiolaeth

Rhaid i bob un sy'n darparu sicrwydd ansawdd mewnol ar gyfer y cymwysterau hyn feddu ar:

- wybodaeth waith a phrofiad cyfredol o arfer gorau mewn Dysgu a Datblygu
- bod yn gymwys yn alwedigaethol yn yr unedau y maen nhw'n sicrhau eu hansawdd
- dangos tystiolaeth gyfredol o ddatblygiad ac ymarfer proffesiynol parhaus mewn dysgu a datblygu, asesu a sicrhau ansawdd

yn ogystal â meddu ar un o'r cymwysterau canlynol neu gymhwyster cywerth cydnabyddedig**:**

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith, **neu**
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol, **neu**
- Asesu perfformiad dysgwr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, neu
- D32 Asesu perfformiad ymgeiswyr a D32 Asesu Dysgwr gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau tystiolaeth

yn ogystal â meddu ar neu fod yn gweithio tuag at un o'r cymwysterau sicrhau ansawdd mewnol canlynol neu gymhwyster cywerth cydnabyddedig:

- Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu **neu**
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu, **neu**
- V1 Cynnal sicrhau ansawdd mewnol o'r broses asesu, **neu**
- D34 Dilysu'r broses asesu yn fewnol.

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac asesydd neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni ddylent sicrhau ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol. Yn ogystal, rhaid i ymarferwyr sy'n darparu'r cymwysterau hyn fodloni trefniadau statudol a chytundebol y genedl lle maent yn gweithio.

Ni chaniateir i aseswyr heb gymwysterau asesu'r cymwysterau hyn.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Rhaid i ganolfannau gefnogi staff i sicrhau fod ganddynt wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd cyfredol mewn dysgu a datblygu ond hefyd mewn ymarfer asesu a sicrhau ansawdd mewnol os ydyn nhw'n cyflawni'r rolau hyn. Yn ogystal, cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod darparu dysgu, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd mewnol yn unol ag ymarfer gorau ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

Sicrwydd Ansawdd

Dull cynhwysfawr o drin ansawdd a sicrhau ansawdd

Mae'n llesol i bawb bod darpariaeth hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau yn y DU o'r radd flaenaf.

Yn City & Guilds rydym yn ymroddedig i gefnogi canolfannau i wella lefelau ansawdd. Yn unol â hyn rydym yn gweld cynnwys y cymwysterau hyn - a'u darparu - yn sylfaenol i sicrhau ansawdd pob dysgu a phob cymhwyster galwedigaethol.

Ansawdd yw 'gradd rhagoriaeth rhywbeth'
Sicrhau Ansawdd yw 'system o gynnal a gwella safonau'

Mae angen dysgu, asesu a sicrhau ansawdd o ansawdd uchel er mwyn cael y gorau allan o bob cymhwyster. Mae manteision pendant i bob un yn sgil y ddynesfa hon gan ei bod yn golygu:

- gwell profiad i ddysgwyr
- codi cyfraddau cyflawniad dysgwyr
- cynyddu cyfraddau cadw dysgwyr
- rhaglenni mwy cost effeithiol
- cwrdd â gofynion rheoleiddio
- cefnogaeth ar gyfer prosesau cynllunio a monitro eraill megis hunanasesu

Er mwyn cyflawni hyn - rhaid cynnwys ansawdd a sicrhau ansawdd o'r cam cynllunio rhaglenni dysgu - gan eu bod yn rhannau annatod o'r rhaglenni eu hunain. Mae hyn yn ffordd ddefnyddiol o edrych ar y mater:

'Rhaid cynnwys ansawdd a sicrhau ansawdd fel rhan o ddarpariaeth canolfan o'r dechrau'n deg - mae'n llawer anoddach archwilio ansawdd gwael allan nac adeiladu ansawdd da i mewn...'

Mae angen i hyn fod yn gryf yn y meddwl wrth gynllunio darpariaeth y cymwysterau hyn. Mae angen i fesurau ansawdd a sicrhau ansawdd gael eu hadeiladu i mewn i bob proses ar daith y dysgwr - mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- proses recriwtio
- proses sefydlu
- asesiad cychwynnol
- cynlluniau dysgu
- addysgu
- hwyluso dysgu
- adolygiadau cynnydd
- prosesau asesu
- cyflawniad
- cynllunio cynnydd

Mae pwys ar ansawdd ym mhob man ar 'Daith y Dysgwr'.

Os ydych yn ganolfan sy'n bodoli eisoes ar gyfer y cymwysterau Dysgu a Datblygu 6317, 7317 a 7318 yna bydd gennych eisoes brofiad ac adnoddau perthnasol megis:

- ymarferwyr dysgu, asesu a sicrhau ansawdd medrus
- prosesau sicrhau ansawdd mewnol presennol

Systemau sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i bob canolfan fod â systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ddarpariaeth orau o ddarparu ac asesu cymwysterau.

Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyo cychwynnol canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Canolfannau sy'n gyfrifol am sicrwydd ansawdd mewnol gyda City & Guilds yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd allanol.

Ar gyfer y cymwysterau hyn, rhaid i ganolfannau ddatblygu strategaeth a chynllun samplu y mae'n rhaid i bawb sy'n ymgymryd â'r rôl sicrhau ansawdd mewnol eu gweithredu. Bydd canolfannau sydd â phrofiad o gynnig N/SVQs yn canfod y gellir addasu eu proses ddilysu fewnol i sefydlu system sicrhau ansawdd mewnol (IQA) ar gyfer y cymwysterau hyn.

Mae angen i'n system IQA gynnwys:

- Cynllunio sampl yn seiliedig ar egwyddorion 'DATRYS', h.y. rhaid i gynlluniau gynnwys samplu pob math o:
    - **D**ulliau asesu
    - **A**seswyr
    - **T**ystiolaeth neu Elfennau
    - **R**ecord neu Gofnodion
    - **Y**mgeiswyr
    - **S**afleoedd asesu
- Cyfathrebu effeithiol
- Samplo interim
- Samplo adolygol
- Monitro ymarfer aseswyr (yn cynnwys arsylwi)
- Gweithgareddau safoni
- Gweinyddiaeth gadarn
- Cofnodion o'r uchod

Bydd angen i bwy bynnag sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol mewn canolfan sicrhau bod yr holl ffactorau sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd yn cael eu cynnwys yn y ganolfan. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau:

- bod systemau sicrhau ansawdd yn 'addas i'r diben' a'u *bod* mewn gwirionedd yn monitro ansawdd taith y dysgwr
- cynllunnir ar gyfer samplu sicrhau ansawdd a'i gynnal drwy gydol taith y dysgwr ac nid ar y diwedd yn unig
- y dysgu a'r hyfforddiant sy'n cael eu cyflwyno yn modelu 'arfer gorau' ac yn bodloni'r holl ofynion – a bod hyn yn cael ei fonitro
- bod yr holl ymarfer (yn cynnwys hyfforddiant, asesu ac IQA) yn unol â'r SGC cyfredol ar gyfer Dysgu a Datblygu
- bod tiwtoriaid ac aseswyr yn cael eu harsylwi yn rheolaidd wrth wneud eu rolau

- bydd aseswyr yn cael eu cefnogi, yn cael adborth ar eu hymarfer ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau safoni
- bod cadw cofnodion yn digwydd yn ôl y gofyn
- mae pob aelod o'r tîm yn cynnal eu DPP flwyddyn ar ôl blwyddyn
- mae cyfathrebu â City & Guilds yn effeithiol

Sicrhau ansawdd allanol

Bydd sicrhau ansawdd ar gyfer y cymwysterau yn cael ei ddarparu gan City & Guilds. Mae hyn yn cynnwys:

- cymeradwyo canolfannau
- monitro'r ddarpariaeth ddysgu
- monitro arferion asesu
- monitro arferion sicrhau ansawdd mewnol

Gofynion mynediad i ddysgwr

Ni ddylai dysgwyr gael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster o'r un math, cynnwys a lefel â chymhwyster sydd eisoes ganddyn nhw.

Nid yw City & Guilds wedi gosod gofynion mynediad ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau fod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfle i'w cwblhau a'u cyflawni.

Yn rhai o'r cymwysterau hyn, rhaid i ddysgwyr gael y cyfle i arddangos eu cymhwysedd mewn amgylchedd go iawn gyda dysgwyr go iawn er mwyn gallu cwrdd â'r gofynion i gyd.

Rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud ag asesu a sicrhau ansawdd unedau neu gymwysterau eraill **fodloni gofynion penodol y strategaeth asesu sy'n gysylltiedig â'r unedau a'r cymwysterau hynny.**

Cyfyngiadau oed

Nid oes terfynau oedran ynghlwm wrth ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r cymwysterau oni bai bod hyn yn un o ofynion cyfreithiol y broses neu'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y bydd dysgwyr ar gyfer y cymwysterau hyn yn iau na 16 oed.

Cyfleoedd am gynnydd

Mae'r unedau hyn wedi cael eu dylunio i gael eu cyflawni'n unigol neu fel cymwysterau.

Mae'r unedau 'Deall yr Egwyddorion....' yn unedau gwybodaeth yn unig felly gall unrhyw un sydd â diddordeb yn egwyddorion ac arferion sylfaenol dysgu a datblygu heb orfod bod yn ymarferydd. Fodd bynnag, gan fod yr unedau hyn wedyn yn ymddangos ym rhai o'r cymwysterau dilynol, mae'n bosibl (pan fydd rôl swydd y dysgwr yn caniatáu) symud ymlaen o'r unedau 'Egwyddorion' i ymarfer ac felly cyflawni'r unedau 'cymhwysol neu 'seiliedig ar gymhwysedd'.

Mae llwybr graddedig drwy'r cymwysterau hyn ond **nid yw hi'n orfodol eu bod yn cael eu gwneud mewn unrhyw drefn benodol.**

Fel y nodwyd yn gynharach (gweler tudalen 6) bwriad y trefniadau 'nythu' yw galluogi unrhyw ymarferydd i symud ymlaen yn 'llorweddol' ar Lefel 3 drwy gronni credydau ac ennill cydnabyddiaeth ardystiedig o'u dysgu a'u sgiliau ar bwyntiau priodol.

Gan fod llawer o'r unedau sy'n ffurfio'r Dystysgrif Lefel 3 hefyd yn y Diploma Lefel 4, bydd y rhan fwyaf o ymarferwyr sy'n ennill y Dystysgrif Lefel 3 eisoes wedi cronni credydau sylweddol o fewn y Diploma Lefel 4.

Bwriad y trefniant hwn yw galluogi dilyniant 'fertigol' i'r lefel nesaf.

Mae'n rhaid i ganolfannau gynnal asesiad cychwynnol manwl ac arwain dysgwyr i ymgymryd â'r unedau neu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer eu rôl a'u sefyllfa benodol ar y pryd.

3 Cyflwyno'r cymhwyster

Asesu a chyflwyno cychwynnol

Bydd angen i ganolfannau wneud asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau eu rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofrestru ar gyfer math a lefel briodol cymhwyster a hefyd i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r uned fwyaf priodol.

Dylai'r broses asesu gychwynnol nodi:

- unrhyw anghenion dysgu penodol sydd gan y dysgwr, a'r cymorth a'r arweiniad y gallai fod eu hangen arno/i wrth weithio tuag at ei g/chymwysterau. Cyfeirir at hyn weithiau fel prawf diagnostig neu sgan sgiliau
- unrhyw unedau y mae'r dysgwr eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y mae wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau y mae ar fin eu dechrau
- unrhyw unedau neu rannau o unedau all achosi anawsterau i'r dysgwr e.e. os yw eu rôl swydd neu lefel o brofiad ddim yn ddigon pellgyrhaeddol iddyn nhw gwrdd â'r gofynion
- (os yw unedau asesu a/neu sicrhau ansawdd mewnol i gael eu gwneud) gofynion strategaeth asesu'r cymhwyster sydd i'w hasesu neu ei sicrhau o ran ansawdd gan y dysgwr er mwyn sicrhau y gall fodloni'r manylebau

Mae City & Guilds yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu i sicrhau bod dysgwyr yn deall yn llawn ofynion y cymhwyster(cymwysterau) y byddant yn gweithio tuag atynt, eu cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cofnodi'r wybodaeth ar gontract dysgu.

Ceir canllawiau pellach ar asesu cychwynnol ac ymsefydlu yn ogystal â chontract dysgu y gall canolfannau ei ddefnyddio ar wefan City & Guilds.

Strategaethau darparu dysgu

Nid yw City & Guilds yn rhagnodi sut mae canolfannau'n darparu'r dysgu ar y cymwysterau hyn ar yr amod bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni.

Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo gyda gofynion strwythur, cynnwys ac asesu gofynion y cymwysterau cyn cynllunio unrhyw raglen ddysgu. Yn ogystal, ceir gwybodaeth ganllaw yn y rhan fwyaf o unedau y byddai staff canolfannau yn eu cael yn ddefnyddiol iawn wrth gynllunio rhaglenni dysgu ar gyfer y cymwysterau hyn.

Dulliau Dysgu ac Asesu

Er mwyn cynorthwyo canolfannau, mae'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys ar gyfer asesu a thystiolaeth yn seiliedig ar ddysgu ac asesu **seiliedig ar weithgarwch**. Argymhellir y dylid ymdrin â chyflwyno ac asesu'r cymwysterau hyn yn gyfannol lle bynnag y bo modd. Er enghraifft, os yw dysgwr yn ymgymryd â'r Dyfarniad 'Deall Egwyddorion ac Ymarfer Dysgu a Datblygu' ac nad yw'n ymarfer yn weithredol, yna caiff yr uned wybodaeth hon ei chyflwyno a'i hasesu ar

ei phen ei hun. Fodd bynnag, os yw'r dysgwr yn ymgymryd â'r Dyfarniad, 'Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau', mae cyfleoedd i gaffael yr wybodaeth drwy ymarfer h.y. drwy brofiad – efallai na fydd angen darparu 'dysgu' ar wahân ar gyfer yr uned hon.

Yn y rhan fwyaf o ganolfannau bydd dysgu'n cael ei gyflwyno drwy gyfuniad o:

- ymarfer cymhwysol
- addysgu
- profiad
- hyfforddiant
- cefnogaeth a chyngor

Cyfrifoldeb y ganolfan o hyd (nid y dysgwr) yw darparu cyfleoedd dysgu. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ganddynt y timau staff cywir i gyflwyno dysgu drwy'r dulliau y maent yn penderfynu arnynt, er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Bydd asesiad ffurfiannol o gynnydd pob dysgwr yn monitro ei ddatblygiad ac yn nodi pryd y mae asesiad crynodol yn briodol.

Wrth asesu'r unedau cymhwysol neu seiliedig ar gymhwysedd megis 'Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion' bydd arsylwi ymarfer yn rhoi cyfleoedd i gasglu rhywfaint o wybodaeth fel y caiff ei dangos drwy berfformiad.

Mae'r broses asesu a argymhellir yn cynnwys:

- cynllunio a pharatoi dysgwyr
- asesiad
- dadansoddi
- gwneud penderfyniadau
- cofnodi
- adborth i'r dysgwr drwy gydol y broses
- ymgysylltu â'r broses sicrhau ansawdd drwy gydol y broses

Mae'r dull hwn yn lleihau'r baich ar yr asesydd a'r dysgwr gan ei fod yn dileu'r angen i'r dysgwr 'gasglu' tystiolaeth ar wahân ar gyfer asesu – mae'r dystiolaeth yn dod yn naturiol o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal.

Storio tystiolaeth a 'phortffolios'

Tystiolaeth o ddysgu a thystiolaeth o gymhwysedd

Daw 'portffolios' ar sawl ffurf – mae rhai yn electronig, rhai ar bapur, ac eraill yn gyfuniad o'r ddau. Mae'n bwysig cofio y dylai'r 'Portffolio tystiolaeth' fod yn union hynny a chynnwys **dim ond** y cofnodion asesu a thystiolaeth sy'n cadarnhau cyflawniad. Ni ddylai gynnwys deunyddiau hyfforddi, aseiniadau ar gyfer datblygu'r dysgwr a gwybodaeth ac arweiniad arall a oedd yn rhan o 'daith y dysgwyr'.

Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr am gadw cofnod personol o'u dysgu. Gallant gadw 'Ffeil Ddysgu' sy'n cynnwys yr holl wybodaeth a deunyddiau sy'n olrhain eu datblygiad. Fodd bynnag, ni fydd y 'Ffeil Ddysgu' yn rhan o'r prosesau asesu na sicrhau ansawdd – ond byddai gan y dysgwr gofnod personol gwerthfawr o'i daith a'i gynnydd.

Mwy am 'Bortffolios tystiolaeth'

Mae Ofqual wedi haeru ers tro bod modd gadael tystiolaeth '**lle mae ar bapur neu ar ffurf faterol, yn ei lleoliad naturiol**' er enghraifft y gweithdy, y swyddfa neu'r safle adeiladu. Mae hwn yn ddull synhwyrol gan na all llawer o dystiolaeth 'cynnyrch' am amryw o resymau fynd i 'bortffolio' (e.e. wal frics sydd wedi'i hadeiladu, cofnodion sensitif o gartref gofal ac ati) Yn yr un modd, nid oes angen argraffu a chyflwyno copïau papur o bolisïau a gweithdrefnau os gellir gadael y rheini yn eu lleoliad arferol a'u gwirio gan aseswyr, Sicrhawr Ansawdd Mewnol (IQA) a'r Sicrhawr Ansawdd Allanol (EQA) 'yn y fan a'r lle'.

Fodd bynnag, os mabwysiedir y dull hwn yna mae'n rhaid i'r cofnod asesu nodi:

- Pwy a beth gafodd ei asesu gan bwy
- Dyddiad, a lleoliad yr asesiad
- Y dulliau asesu a ddefnyddiwyd
- Y penderfyniad asesu
- Yr Unedau, Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu a gyflawnwyd
- Lleoliad y dystiolaeth ategol

Gall un 'portffolio' gynnwys tystiolaeth mewn nifer o leoliadau, wedi'i chysylltu gan y trywydd archwilio a ddarperir drwy'r cofnodion asesu a sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae goblygiadau ymarferol i'w hystyried:

- os gadewir tystiolaeth yn ei lleoliad arferol yna bydd yn rhaid i'r sicrhawyr ansawdd mewnol ac allanol ei samplu yn ei leoliad arferol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i staff Sicrhau Ansawdd gynllunio ar gyfer safleoedd eraill a chynnal ymweliadau â nhw fel rhan o'u samplu
- mae'n rhaid i'r trywydd archwilio Sicrhau Ansawdd fod yn glir o hyd, y gellir ei olrhain drwy'r dystiolaeth a rhaid cynnal y samplu a gynlluniwyd fel sy'n ofynnol gan y cymhwyster
- mae'n hanfodol bod y dystiolaeth yn cael ei chadw'n ddiogel yn ei lleoliad arferol a'i bod ar gael yn rhwydd i'w samplu pryd bynnag y bydd y samplu sicrhau ansawdd allanol yn digwydd. Cyfrifoldeb y ganolfan yw trefnu hyn – nid cyfrifoldeb yr Sicrhawr Ansawdd Allanol yw gorfod dod o hyd i dystiolaeth

Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer unedau'r cymwysterau hyn.

Disgrifiad	Sut i gael gafael arnyn nhw
Deunyddiau cyflwyno unedau asesu a sicrhau ansawdd mewnol	**www.smartscreen.co.uk**
Deunyddiau unedau asesu a sicrhau ansawdd mewnol	**www.cityandguilds.com/taqa**

Dogfennau cofnodi

Gall dysgwyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull ar bapur neu ddull electronig o gofnodi tystiolaeth.

Mae City & Guilds yn cefnogi **Cynorthwy-ydd Dysgu,** teclyn ar-lein diogel a hawdd ei ddefnyddio i gefnogi a darparu tystiolaeth o gynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae manylion pellach ar gael ar: **www.cityandguilds.com/eportfolios**.

Mae City & Guilds wedi datblygu set o **ffurflenni cofnodi** gan gynnwys enghreifftiau o ffurflenni wedi'u llenwi, i ganolfannau presennol a newydd eu defnyddio fel y bo'n briodol. Mae fersiynau (MS Word) y gellir eu diwygio o'r ffurflenni ar gael ar wefan City & Guilds.

Er y disgwylir i ganolfannau newydd ddefnyddio'r ffurflenni hyn, gall canolfannau ddyfeisio neu addasu ffurflenni eraill. Mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo i'w defnyddio gan sicrhawr ansawdd allanol cyn iddynt gael eu defnyddio gan ddysgwyr ac aseswyr yn y ganolfan.

4 Asesu

Crynodeb o ddulliau asesu

Bydd gwahanol unedau yn y cymwysterau hyn yn cynnwys gofynion a dulliau asesu gwahanol – a bydd pob un ohonynt yn gyfarwydd i aseswyr presennol a staff sicrhau ansawdd.

Ar gyfer unedau lle mae **gweithgareddau ymarferol** (cymhwysedd) yn cael eu hasesu bydd dulliau'n cynnwys:

- arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith gan asesydd neu dyst
- archwilio cynnyrch gwaith y dysgwr ei hun
- holi'r dysgwr
- trafodaethau gyda'r dysgwr
- Defnyddio pobl eraill (tystiolaeth tyst)
- edrych ar ddatganiadau dysgwyr
- cydnabod dysgu blaenorol

Ar gyfer yr unedau lle mae gwybodaeth yn cael ei asesu bydd dulliau hefyd yn cynnwys:

- cwestiynau llafar ac ysgrifenedig
- aseiniadau
- prosiectau
- astudiaethau achos
- cydnabod dysgu blaenorol

Dylid casglu tystiolaeth ar gyfer **gweithgareddau ymarferol** o dystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol wedi'i chasglu yn yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â gwaith. Rhaid i dystiolaeth ar gyfer yr unedau **gwybodaeth yn unig** fel aseiniadau, astudiaethau achos, prosiect ac ati ddilyn canllawiau City & Guilds a rhaid cytuno arnynt ymlaen llaw gyda'r Ymgynghorydd Cymhwyster.

Canllawiau asesu cyffredinol

Rhaid cael tystiolaeth ddilys, wir a digonol ar gyfer yr holl feini prawf asesu. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol asesu pob uned, canlyniad dysgu na meini prawf asesu ar wahân. Argymhellir bod asesu cyfannol yn cael ei ddefnyddio lle bynnag y bo'n briodol.

Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio un gweithgaredd fel tystiolaeth ar gyfer canlyniadau dysgu a meini prawf asesu ar gyfer unedau eraill. Er enghraifft, gallai trafodaeth ar gyfer yr uned 'Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau' ddarparu peth tystiolaeth ar gyfer 'Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu'. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod tystiolaeth ar gyfer y meini prawf asesu ym mhob uned hefyd yn cael ei nodi'n unigol.

Rhaid i bob uned gael ei hasesu gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i gynnwys yr uned. Felly, er enghraifft, gallai asesu uned gwybodaeth yn unig fel 001 'Deall egwyddorion ac ymarfer dysgu a datblygu' (os yw'n cael ei asesu fel uned annibynnol) fod drwy ddefnyddio aseiniad, atebion i gwestiynau ysgrifenedig neu drafodaeth broffesiynol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i asesiad unedau seiliedig ar gymhwysedd fel 008 a 009 gael ei wneud gan ddefnyddio dulliau sy'n gydnaws ag asesu cymhwysedd megis arsylwi mewn amgylchedd gwaith ac archwilio cynhyrchion gwaith. Gweler yr unedau unigol am fanylion pellach.

Cofnodi gweithgareddau asesu

Gellir cofnodi penderfyniadau asesu a thystiolaeth mewn amrywiaeth o fformatau. Fodd bynnag, waeth beth yw ffurf y cofnodi a ddefnyddir, yr egwyddor arweiniol yw bod yn rhaid i'r holl wybodaeth sy'n ymwneud ag asesu cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac arfer gorau yn y sector. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth y gellir, fodd bynnag, ei holrhain o hyd at ddibenion sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Dysgu a Datblygu (6 chredyd

Uned	Enw'r uned	Dull Asesu	Lle i gael gafael ar ddeunyddiau asesu
001	Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu	Portffolio	

Dyfarniad Lefel 3 mewn Hwyluso Dysgu a Datblygu (12 credyd)

Uned	Enw'r uned	Dull Asesu	Lle i gael gafael ar ddeunyddiau asesu
001	Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu	Portffolio	
008 **neu**	Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau	Portffolio Arsylwi	
009	Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion	Portffolio Arsylwi	

Tystysgrif Lefel 3 mewn Dysgu a Datblygu (30 credyd)

Uned	Enw'r uned	Dull Asesu	Lle i gael gafael ar ddeunyddiau asesu
001	Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu	Portffolio	
004	Adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol	Portffolio	
006	Cynllunio a pharatoi cyfleoedd dysgu a datblygu penodol	Portffolio	
007	Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu	Portffolio	
008	Hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau	Portffolio Arsylwi	
009	Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion	Portffolio Arsylwi	
011	Ymgysylltu'r dysgwyr yn y broses ddysgu a datblygu	Portffolio	
012	Myfyrio a gwella eich ymarfer eich hun mewn dysgu a datblygu	Portffolio	
013	Gwerthuso a gwella darpariaeth dysgu a datblygu	Portffolio	
014	Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu	Portffolio	
015	Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith	Portffolio Arsylwi	
016	Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth	Portffolio Arsylwi	
019	Darparu gwybodaeth a chyngor i ddysgwyr a chyflogwyr	Portffolio	
020	Ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu a chefnogi darpariaeth ddysgu	Portffolio	

Uned	Enw'r uned	Dull Asesu	Lle i gael gafael ar ddeunyddiau asesu
021	Deall y sefydliad sy'n cyflogi	Portffolio	

Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)

Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB) yn broses o ddefnyddio cyflawniadau blaenorol unigolyn i arddangos cymhwysedd. Nid yw hon
yn broses newydd ond mae'n ehangu ar brosesau a ddefnyddiwyd cyn hyn megis Achredu Dysgu Blaenorol (ADB), cydnabod dysgu arbrofol a dilysu dysgu anffurfiol drwy ymgorffori pob math o ddysgu a hyfforddiant blaenorol.

Mae'r trefniadau rheolaethol yn diffinio CDB fel dull o asesu sy'n ystyried a yw dysgwr yn gallu arddangos eu bod yn gall cwrdd â gofynion asesu uned drwy wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod ac nad oes angen iddyn nhw eu datblygu drwy gwrs o ddysgu.

Caiff asesiad am CDB ei gynnal yn erbyn canlyniadau dysgu a meini prawf asesu uned ac mae'n destun i'r un gofynion sicrhau ansawdd yn union ag unrhyw fath arall o asesiad.

Mae'r broses CDB yn berthnasol lle mae unigolyn wedi dysgu rhywbeth yn flaenorol ond efallai nad yw erioed wedi derbyn cydnabyddiaeth ffurfiol am y dysgu hwn drwy gymhwyster neu ddull arall o ardystio.

Os gall y dysgwr brofi'r honiad hwn (drwy asesu tystiolaeth berthnasol), yna gellir dyfarnu credyd ar gyfer y cyflawniad hwnnw yn yr un modd ag unrhyw gredydau eraill.

Mae CDB yn cyfeirio at gyfle i ddysgwyr gyflwyno cymhwysedd neu dystiolaeth o wybodaeth sy'n dod o gyfnod cyn iddyn nhw gofrestru ar gyfer cymhwyster penodol. Bydd angen i'r dystiolaeth gaiff ei chyflwyno - e.e. tystysgrifau, tystiolaeth gan dystion ac ati - ddarparu digon o fanylion i ganiatáu i'r asesydd ddefnyddio'r broses asesu CDB.

Bydd aseswyr yn asesu'r canlyniadau dysgu perthnasol a'r meini prawf asesu gan sicrhau fod pob un wedi'u cynnwys, gan ddefnyddio dulliau perthnasol ar gyfer CDB megis: tystiolaeth tyst, cofnodion adfyfyriol, trafodaeth broffesiynol, ac ati.

Wrth ystyried priodoldeb unrhyw un darn o dystiolaeth dylid ystyried y canlynol:

- Cynnwys - y graddau y mae cynnwys unrhyw ddysgu blaenorol yn cwrdd â gofynion y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y mae'n cael ei gyflwyno fel tystiolaeth ar ei gyfer.
  - Ehangder yr Asesu - sicrhau bod yr holl ddysgu a gafwyd o'r cynnwys wedi cael ei asesu. Os mai dim ond canran sydd wedi cael ei asesu, yna ni ellir tybio'r dysgu ar gyfer y meysydd na chafodd eu profi.
- Lefel - y graddau y mae lefel y dysgu a gynigwyd ac a gafodd ei

brofi yn berthnasol i'r hyn sy'n ofynnol gan lefel y cymwysterau/unedau sy'n cael eu hawlio.

- Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu - y graddau yr oedd y dysgu blaenorol wedi bodloni'r ddau. Bydd peth dysgu ond wedi cael ei gynnig a'i brofi yn yr olaf, ac os felly dim ond yr agwedd gwybodaeth all gael ei gynnwys yn y Cydnabod Dysgu Blaenorol. Bydd angen asesu pellach ar y perfformiad. Er yn annhebygol, gallai'r gwrthwyneb (perfformiad wedi'i brofi ond nid gwybodaeth) fod yn wir ac os felly byddai angen asesu pellach ar wybodaeth a dealltwriaeth.
- Model dysgu - gall anawsterau godi wrth fapio dysgu a gafwyd o raglenni dysgu heb fod yn seiliedig ar gymhwysedd i mewn i fodelau seiliedig ar gymhwysedd.
- Perthnasedd Cyd-destun - i ba raddau y mae cyd-destun y dysgu a enillwyd ac a aseswyd yn berthnasol i gyd-destun cyfredol rôl y dysgwr. Os oedd y cyd-destun yn wahanol, bydd angen i aseswyr fodloni eu hunain o allu'r dysgwyr i drosglwyddo'r dysgu blaenorol i'r cyd-destun cyfredol.

5 Unedau

Argaeledd unedau

Gellir cael yr unedau canlynol o'r Gofrestr Cymwysterau a Reoleiddir: **http://register.ofqual.gov.uk/Unit**

Strwythur unedau

Mae gan bob un o'r unedau hyn y canlynol:

- Cyfeirnod City & Guilds
- rhif achredu'r uned (RHAU)
- enw
- lefel
- gwerth credydau
- oriau dysgu dan arweiniad
- nod yr uned
- perthynas â SGC, cymwysterau a fframweithiau eraill
- cymeradwyaeth gan sector neu gorff priodol arall
- gwybodaeth ar asesu
- canlyniadau dysgu sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- nodiadau canllaw.

Uned 001 Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu mewn grwpiau

RHAU:	Y/502/9541
Lefel:	Lefel 3
Gwerth credydau:	6
ODDA:	25
Perthynas â SGC:	Mae'r uned hon yn gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau - LSIS (LLUK gynt), 2010
Gofynion asesu a bennir gan sector neu gorff rheoleiddio:	Rhaid i'r holl ganlyniadau dysgu gael eu hasesu gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth. Os caiff ei hasesu fel un uned, gall yr uned hon gael ei hasesu drwy: • ddatganiadau neu atebion ysgrifenedig • datganiadau neu atebion llafar • trafodaethau rhwng y dysgwr a'i asesydd • aseiniad • prosiectau
Nod:	Mae'r uned hon yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ymarferydd dysgu a datblygu er mwyn tanategu ei ymarfer.

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall pwrpas a chyd-destun dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 Dadansoddi amcanion dysgu a datblygu ar gyfer dysgwyr ac ar gyfer sefydliadau 1.2 Esbonio'r cyd-destunau a'r amgylcheddau lle mae dysgu a datblygu'n digwydd

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Deall y cylch dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 Esbonio'r cylch dysgu a datblygu a phob un o'r rhannau o'i fewn 2.2 Esbonio sut mae'r cylch dysgu a datblygu'n cael ei ddefnyddio i wella profiad y dysgwr

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. Deall anghenion dysgwyr mewn perthynas â dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 Crynhoi pam mae hi'n angenrheidiol deall anghenion a symbyliad dysgwr i ddysgu a datblygu 3.2 Esbonio sut i addasu dysgu a datblygu i gwrdd ag anghenion a dewisiadau dysgwyr 3.3 Amlinellu'r ffactorau sy'n gallu arwain at wella a chynnal ymgysylltiad a symbyliad dysgwr

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 4. Deall rolau a chyfrifoldebau'r ymarferydd dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 4.1 Esbonio eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain mewn perthynas â dysgu a datblygu 4.2 Esbonio'r pwyntiau cyfeirio sydd ar gael i helpu i gwrdd ag anghenion dysgwyr 4.3 Esbonio rôl yr ymarferydd yn natblygiad dysgwyr yn y broses ddysgu a datblygu 4.4 Esbonio rôl yr ymarferydd yn y gwaith o wella ansawdd dysgu a datblygu 4.5 Crynhoi rôl yr ymarferydd wrth reoli risgiau i ddysgwyr a'u diogelu

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 5. Deall gofynion deddfwriaethol a sefydliadol mewn perthynas â dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 5.1 Esbonio hawliau'r dysgwr mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 5.2 Esbonio cyfrifoldeb yr ymarferydd a'r sefydliad mewn perthynas â diogelwch a diogeled dysgwyr 5.3 Crynhoi pwrpas a therfynau cyfrinachedd mewn perthynas â dysgwyr a'r sefydliad 5.4 Esbonio gofynion ar gyfer cadw cofnodion mewn perthynas â dysgu a datblygu

Uned 001 Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu mewn grwpiau

Gofynion Tystiolaeth

Rhaid cael tystiolaeth ddilys, wir a digonol ar gyfer yr holl feini prawf asesu. Fodd bynnag, gellir defnyddio un darn o dystiolaeth i gwrdd â gofynion mwy nag un canlyniad dysgu neu faen prawf asesu.

Uned 004 Adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol

RHAU:	K/502/9544
Lefel:	Lefel 3
Gwerth credydau:	3
ODDA:	24
Perthynas â SGC:	Mae'r uned hon yn gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau - LSIS (LLUK gynt), 2010
Gofynion asesu a bennir gan sector neu gorff rheoleiddio:	Mae canlyniadau dysgu 2 a 3 yn yr uned hon yn gofyn am dystiolaeth perfformiad o'r dysgwr yn gweithio gyda dysgwyr go iawn mewn cyd-destun sefydliadol gwirioneddol. Wrth asesu Canlyniadau dysgu 2 a 3 rhaid i'r dulliau a ddefnyddir gynnwys: • Arsylwi perfformiad mewn amgylchedd gwaith • Archwilio cynnyrch gwaith Gellir casglu tystiolaeth atodol drwy: • Holi • Trafodaeth • Defnyddio pobl eraill (tystiolaeth tyst) • Edrych ar ddatganiadau ymarferwyr
Nod:	Nod yr uned hon yw asesu dealltwriaeth ymarferydd dysgu a datblygu a'i gymhwysedd wrth gynnal dadansoddiad o anghenion dysgu neu hyfforddi ar gyfer unigolyn. Mae 'ymarferydd' yn golygu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dysgu a datblygu fel rhan o'i rôl.

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall egwyddorion ac arferion dadansoddiad o anghenion dysgu ar gyfer unigolion
Meini Prawf Asesu

Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 Esbonio egwyddorion ac arferion dadansoddiad o anghenion dysgu ar gyfer unigolion 1.2 Dadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar anghenion, dewisiadau ac arddulliau dysgu unigolyn 1.3 Cymharu dulliau a ddefnyddiwyd i asesu anghenion dysgu unigol

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gallu cynnal dadansoddiad o anghenion dysgu i unigolion
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 Cytuno ar bwrpas, amcanion a methodoleg y dadansoddiad o anghenion dysgu gydag unigolion 2.2 Cymhwyso methodoleg dadansoddiad o anghenion dysgu i asesu lefel cyflawniad presennol yr unigolyn a'i botensial 2.3 Dadansoddi anghenion dysgu a'u cyfathrebu i'r dysgwr

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 3. Gallu cytuno ar anghenion dysgu a datblygu unigol
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 Cytuno a blaenoriaethu anghenion dysgu a datblygu unigol 3.2 Cynghori unigolion am opsiynau dysgu a datblygu i gwrdd â: • blaenoriaethau dysgwr • dewisiadau dysgwr • arddulliau dysgu

Uned 004 Adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol

Gofynion Tystiolaeth

Mae'r uned hon yn asesu cymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i dystiolaeth ar gyfer canlyniadau dysgu 2 a 3 ddod o berfformiad yn yr amgylchedd gwaith. Nid yw efelychiadau, prosiectau neu aseiniadau'n cael eu caniatáu ar gyfer y canlyniadau dysgu hyn.

Rhaid cael tystiolaeth ddilys, wir a digonol ar gyfer yr holl feini prawf asesu. Fodd bynnag, gellir defnyddio un darn o dystiolaeth i gwrdd â gofynion mwy nag un canlyniad dysgu neu faen prawf asesu.

Uned 006 Cynllunio a pharatoi cyfleoedd dysgu a datblygu penodol

RHAU:	T/502/9546
Lefel:	Lefel 3
Gwerth credydau:	6
ODDA:	20
Perthynas â SGC:	Mae'r uned hon yn gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau - LSIS (LLUK gynt), 2010
Gofynion asesu a bennir gan sector neu gorff rheoleiddio:	Uned yn seiliedig ar gymhwysedd yw hon sy'n gofyn am dystiolaeth ar berfformiad o'r dysgwr yn gweithio gyda dysgwyr go iawn mewn cyd-destun sefydliadol gwirioneddol. Rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir gynnwys: • Arsylwi perfformiad mewn • amgylchedd gwaith • Archwilio cynnyrch gwaith Gellir casglu tystiolaeth atodol drwy: • Holi • Trafodaeth • Defnyddio pobl eraill (tystiolaeth tyst) • Edrych ar ddatganiadau ymarferwyr
Nod:	Nod yr uned hon yw asesu cymhwysedd ymarferydd dysgu a datblygu yn cynllunio a pharatoi dysgu a datblygu - er enghraifft sesiynau hyfforddiant ffurfiol, sesiynau hyfforddi neu brofiadau anffurfiol megis cyfnodau yn y gweithle. Mae paratoadau'n cynnwys clustnodi adnoddau a sefydlu systemau a threfniadau. Mae 'darparu' yn golygu pob math o hwyluso dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae 'sesiwn' yn golygu pob math o ddigwyddiad neu weithgaredd dysgu a datblygu o fewn unrhyw gyd-destun. Mae 'ymarferydd' yn golygu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dysgu a datblygu fel rhan o'i rôl.

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Gallu cynllunio cyfleoedd dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 Cytuno ar bwrpas a chanlyniadau dysgu a datblygu i gwrdd ag anghenion dysgwr 1.2 Cynllunio cyflwyno cyfleoedd dysgu a datblygu penodol i gwrdd ag anghenion 1.3 Sicrhau adnoddau angenrheidiol i gyflwyno cyfleoedd dysgu a datblygu penodol 1.4 Adnabod strwythurau, systemau a phrosesau sefydliadol i gefnogi cyfleoedd dysgu a datblygu 1.5 Asesu risgiau i ddysgwyr a'u dysgu a'u datblygu wrth gynllunio cyfleoedd penodol

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gallu paratoi cyfleoedd penodol dysgu a datblygu i gwrdd ag anghenion dysgwr
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 Paratoi sesiynau dysgu a datblygu i gwrdd ag anghenion dysgwr 2.2 Adnabod adnoddau a thechnolegau sy'n ofynnol i gyflwyno sesiynau dysgu a datblygu penodol 2.3 Cyfathrebu amcanion, nodau, cyflwyno a threfniadau asesu penodol ar gyfer dysgu a datblygu

Uned 006 Cynllunio a pharatoi cyfleoedd dysgu a datblygu penodol

Gofynion Tystiolaeth

Mae'r uned hon yn asesu cymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i dystiolaeth ar gyfer pob canlyniad dysgu ddod o berfformiad yn yr amgylchedd gwaith.
Nid yw efelychiadau, prosiectau neu aseiniadau'n cael eu caniatáu ar gyfer yr uned hon.

Rhaid cael tystiolaeth ddilys, wir a digonol ar gyfer yr holl feini prawf asesu. Fodd bynnag, gellir defnyddio un darn o dystiolaeth i gwrdd â gofynion mwy nag un canlyniad dysgu neu faen prawf asesu.

Uned 007 Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu

RHAU:	A/502/9547
Lefel:	Lefel 4
Gwerth credydau:	6
ODDA:	25
Perthynas â SGC:	Mae'r uned hon yn gysylltiedig â Safon 5 y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Dysgu a Datblygu: Cynllunio a pharatoi adnoddau dysgu a datblygu.
Gofynion asesu a bennir gan sector neu gorff rheoleiddio:	Mae canlyniad dysgu 2 a 3 yn yr uned hon yn gofyn am dystiolaeth perfformiad o'r dysgwr yn gweithio gyda dysgwyr go iawn mewn cyd-destun sefydliadol gwirioneddol. Wrth asesu Canlyniad dysgu 2 rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir gynnwys: • Arsylwi perfformiad mewn amgylchedd gwaith • Archwilio cynnyrch gwaith Gellir casglu tystiolaeth atodol drwy: • Holi • Trafodaeth • Defnyddio pobl eraill (tystiolaeth tyst) • Edrych ar ddatganiadau ymarferwyr
Nod:	Nod yr uned hon yw asesu cymhwysedd ymarferydd dysgu a datblygu yn datblygu a pharatoi adnoddau i gefnogi dysgu a datblygu. Mae 'datblygu' yn cynnwys paratoi a chynhyrchu adnoddau 'o'r dechrau'n deg' yn ogystal ag addasu adnoddau presennol i gwrdd ag anghenion dysgwyr. Mae 'adnoddau' hefyd yn cynnwys paratoi'r amgylchedd dysgu, y deunyddiau a'r cyfarpar dysgu a ddefnyddir i gefnogi dysgu. Mae enghreifftiau o adnoddau'n cynnwys: cyfarpar technegol, dysgu drwy TG, taflenni, llyfrau gwaith ac ymweliadau i fannau o ddiddordeb. Mae 'ymarferydd' yn golygu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dysgu a datblygu fel rhan o'i rôl.

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall yr egwyddorion sy'n tanategu datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 Esbonio egwyddorion sy'n tanategu dewis adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu 1.2 Dadansoddi ffactorau sy'n bwysig wrth ddatblygu a pharatoi adnoddau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol a pholisïau sefydliadol 1.3 Gwerthuso cyfraniad technoleg tuag at ddatblygu adnoddau dysgu a datblygu

Canlyniad dysgu
Bydd y dysgwr yn: 2. Gallu datblygu adnoddau i gwrdd ag anghenion dysgu a datblygu
Meini Prawf Asesu
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 Cytuno ar anghenion dysgwyr y mae adnoddau'n cael eu datblygu ar eu cyfer 2.2 Paratoi adnoddau ar gyfer cyflwyno dysgu a datblygu gan sicrhau bod gofynion deddfwriaethol a sefydliadol yn cael eu cwrdd mewn perthynas â iechyd, diogelwch, lles, cydraddoldeb a chynhwysiant 2.3 Cynllunio addasiadau a'r defnydd o dechnoleg o fewn adnoddau i gwrdd ag anghenion dysgu a datblygu 2.4 Paratoi canllawiau i gynorthwyo'r rhai sy'n defnyddio adnoddau dysgu a datblygu 2.5 Gwerthuso addasrwydd adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu

Uned 007 Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu

Gofynion Tystiolaeth

Mae'r uned hon yn asesu cymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i dystiolaeth ar gyfer canlyniad dysgu 2 ddod o berfformiad yn yr amgylchedd gwaith. Nid yw efelychiadau, prosiectau neu aseiniadau'n cael eu caniatáu ar gyfer y canlyniad dysgu hwn.

